

**Diweddariad ar Gynllun Gweithredu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) CBSRhCT 2023**

Blaenoriaeth	Camau Gweithredu	Gan bwy?	Materion allweddol	Deiliant delfrydol	Amserlen	Cynnydd	
<b>1 – Galw posibl heb ei fodloni – mathau o ofal plant, lleoliad, oedran</b>							
1.1	Annog darparwyr presennol gofal y tu allan i oriau'r ysgol i gynnig gofal yn ystod y gwyliau	Cynnal ymgynghoriad wedi'i dargedu gyda rhieni i bennu'r union alw  Ymgysylltu â darparwyr presennol gofal y tu allan i oriau'r ysgol i nodi rhwystrau posibl o ran ymestyn gwasanaethau a chymorth er mwyn goresgyn y rhain lle bo modd	Carfan Datblygu Gofal Plant  Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae	Diffyg ymatebion i ymgynghoriadau gan rieni/ gwarcheidwaid  Mae rhiant/ gwarcheidwad yn datgan bod angen gwasanaeth adeg cwblhau'r arolwg. Pan gaiff y gwasanaeth ei ddarparu, dydy'r rhieni/ gwarcheidwaid ddim yn ei gwblhau.  Grantiau ehangu wedi'u cyfyngu i gynnig cymorth ariannol ar gyfer cynaliadwyedd  Diffyg staff â chymwysterau	Digon o ddarpariaeth gofal yn ystod y gwyliau i ateb y galw  Clybiau gwyliau yn cael eu defnyddio ac yn gynaliadwy  Cynnydd yn nifer y plant sy'n cael mynediad i ofal yn ystod y gwyliau  Darparwyr yn ymgysylltu â'r Garfan Gofal Plant i ystyried ehangu eu gwasanaethau ar y cyd	Ymgynghoriad yn y ddwy ardal gyntaf a nodwyd erbyn mis Hydref 2022  Nodi camau gweithredu lleol o'r ymgynghoriad erbyn Rhagfyr 2022	Cwblhawyd yng Ngogledd a De Cwm Cynon yn Hydref 2022 a Rhagfyr 2022  Mawrth 23–Mehefin 23 – Gogledd Cwm Rhondda dan ymgynghoriad  Dim galw neu ymatebion cyfyngedig wedi'u derbyn gan rieni a dim opsiynau dichonadwy i ddarparwyr gwasanaeth gynnig y gwasanaeth yma  Bydd ardaloedd eraill yn RhCT yn destun ymgynghoriad a bydd diweddariad yn cael ei ddarparu yn y diweddariad

				addas / diffyg staff yn y gweithlu			nesaf o'r cynllun gweithredu
				Darparwyr ddim yn dymuno ehangu eu gwasanaeth			
1.2	Archwilio'r galw am ofal hyblyg yn ôl yr angen a/neu gyfleusterau meithrinfa	Ymgynghoriadau wedi'u targedu gyda rhieni/gwarcheid waid, yn enwedig y rhai sydd angen oriau annodweddiadol  Ymgysylltu â darparwyr i drafod materion, rhwystrau, y broses gweithredu	Carfan Datblygu Gofal Plant  Darparwyr Gofal Plant  Partneriaeth Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae	Mae modd i ddefnydd annibynadwy achosi problemau o ran cynaliadwyedd i ddarparwyr  Yn sgil oriau annibynadwy, efallai y bydd problemau o dal gafael ar staff	Darpariaeth yn ôl y galw / hyblyg ddigonol i ateb y galw	Ymgynghori â rhieni erbyn mis Mawrth 2023  Ymgysylltu â darparwyr erbyn Mehefin 2023	Mae'r cam gweithredu yma wedi'i wthio'n ôl i fis Medi 2023  Oherwydd yr angen i dargedu holl gyflogwyr lleol yn RhCT i asesu'r galw am staff sy'n gweithio oriau anghymdeithasol mae'r broses o goladu ac adnabod rhestrau cyflogwyr wedi cymryd rhagor o amser na'r disgwyl  Bydd diweddariad yn cael ei ddarparu yn y diweddariad nesaf o'r cynllun gweithredu

<p><b>1.3</b></p>	<p>Ymchwilio i'r galw am warchodwyr plant ychwanegol ym mhob rhan o RCT, ond yn arbennig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Gogledd Cwm Cynon (Hirwaun a Rhigos)</li> <li>○ De Cwm Cynon (Abercynon a Gorllewin Aberpennar)</li> <li>○ Gogledd Cwm Rhondda (Glynrhedyn og a Threorci)</li> <li>○ De Cwm Rhondda (pob ward)</li> <li>○ Gogledd-ddwyrain Taf-elái (Trefforest)</li> <li>○ De-ddwyrain Taf-elái</li> </ul>	<p>Ymgysylltu â gwarchodwyr plant presennol i weld lle y gallai fod angen lleoedd ychwanegol, h.y. lle mae'r rhestrau aros hiraf</p> <p>Achlysuron hyrwyddo / sesiynau gwybodaeth mewn ardaloedd lle mae angen denu darpar warchodwyr plant newydd</p>	<p>Carfan Datblygu Gofal Plant</p> <p>Partneriaeth Blynnydoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p>	<p>Efallai na fydd modd i warchodwyr plant gynnig yr oriau sydd eu hangen ar deuluoedd yn yr ardal</p> <p>Diffyg diddordeb o ran dod yn warchodwr plant</p> <p>Pryderon darpar warchodwyr plant newydd ynghylch cynaliadwyedd eu busnes</p> <p>Mae'r amserlenni ar gyfer cwblhau proses cyn-gofrestru a chais gydag AGC yn hir. Efallai y bydd hyn yn atal rhai rhag symud ymlaen</p>	<p>Digon o warchodwyr plant ym mhob rhan o RCT i ddarparu ar gyfer anghenion a nodwyd</p> <p>Cofrestriadau a cheisiadau gydag AGC yn cael eu cwblhau mewn da bryd ar gyfer cychwyn busnes gwarchod plant</p> <p>Rhagor o ymholiadau yn dod i law gan y garfan gofal plant ar gyfer y rhai sy'n dymuno bod yn warchodwr plant a chael mynediad at gyllid</p>	<p>Achlysuron hyrwyddo / sesiynau gwybodaeth yn yr ardal 1<sup>af</sup> a nodwyd yn nhymor yr hydref 2022</p> <p>2<sup>il</sup> ardal a nodwyd yn nhymor y gwanwyn 2023</p>	<p>Mae achlysuron hyrwyddo gwarchod plant wedi cael eu cynnal mewn 3 ardal wahanol ar draws RhCT</p> <p>Cynhaliwyd 2 achlysur yn ysgolion Gogledd Cwm Cynon a gwahoddwyd gwarcheidwaid/rhieni i fynychu. Nifer cyfyngedig a fynychodd yr achlysuron a ni chafwyd unrhyw ymholiadau o ganlyniad.</p> <p>Cynhaliwyd achlysur arall mewn ysgol yn ne Cwm Cynon a chafwyd peth diddordeb yn yr achlysur</p> <p>Bydd achlysuron pellach yn cael eu cynnal mewn 4 ysgol ar draws ardal Gogledd Cwm Rhondda dros y mis</p>
-------------------	--	--	---	---	---	---	---

	(Rhydfelen/ Canol llan) ○ De-orllewin Taf-elái (Gilfach- goch, Llanharan a Dwyrain Tonyrefail)						nesaf lle mae angen sylweddol am warchodwyr plant
1.4	Ymchwilio i'r galw am wasanaethau gofal ychwanegol y tu allan i oriau'r ysgol (ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau) ym mhob rhan o RCT	Ymgynghori â Rhieni/ Gwarcheidwaid i bennu'r union alw  Ymgynghori â darparwyr presennol gofal y tu allan i oriau'r ysgol i weld a ydyn nhw wedi nodi angen  Ymgysylltu â darparwyr presennol gofal y tu allan i oriau'r ysgol i ehangu eu gwasanaeth lle nodir galw	Carfan Datblygu Gofal Plant  Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae	Mae patrymau gwaith rhieni/ gwarcheidwaid wedi newid ac efallai na fydd angen gwasanaethau gofal y tu allan i oriau'r ysgol arnyn nhw mwyach  Diffyg staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol  Problemau gyda chadw staff  Diffyg ymatebion rhieni/ gwarcheidwaid i'r ymgynghoriad	Darpariaeth gofal y tu allan i oriau'r ysgol ddigonol i gwrdd ag angen a galw	Ymgynghoria d yn y ddwy ardal gyntaf a nodwyd erbyn diwedd mis Hydref 2022  Nodi camau gweithredu lleol erbyn diwedd Rhagfyr 2022	Ymgynghorwyd â 3 ardal yn RhCT o ran y galw am ofal y tu allan i oriau'r ysgol a gofal gwyliau.  • Gogledd Cwm Cynon Cysylltwyd â 18 o ysgolion, ymatebion cyfyngedig gan rai ysgolion, gyda chyfradd ymateb o 66.6%. Dywedodd sawl ysgol nad oes unrhyw alw am ofal y tu allan i oriau'r ysgol neu ddarpariaeth gofal gwyliau wedi'i nodi neu fod gwasanaethau gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol yn cael eu darparu gan

						<p>warchodwyr plant neu ddarparwyr gofal plant lleol. Cymerodd un ysgol ran mewn dosbarthu arolwg galw am ofal y tu allan i oriau'r ysgol i rieni. Amlygodd canlyniadau'r arolwg y gallai un ysgol elwa o ofal y tu allan i oriau'r ysgol. Ymgynghorwyd â darparwr gofal plant ar y safle, fodd bynnag, ar ôl ymgynghori ymhellach roedd yn amlwg nad oedd yr opsiwn yma'n ymarferol ac mae opsiynau gofal plant eraill yn cael eu harchwilio.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• De Cwm Cynon Dilynodd De Cwm Cynon batrwm tebyg, wnaeth rhai ysgolion ddim ymgysylltu nac ymateb er gwaethaf</li></ul>
--	--	--	--	--	--	---

						<p>negeseuon e-bost a galwadau. Ymgynghorwyd ag 11 ysgol gyda chyfradd ymateb o 54.4%. O'r 6 ysgol a ymatebodd, dywedodd 5 ohonyn nhw nad oedd unrhyw alw am ofal y tu allan i oriau'r ysgol na gofal gwyliau. Rhannodd 1 ysgol arolwg galw'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ond dangosodd ymatebion nad oedd angen y gwasanaeth ac na fyddai'n ymarferol.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Gogledd Cwm Rhondda</li></ul> <p>Dyma weithred fyw Mehefin 2023. Hyd yn hyn cysylltwyd ag 16 o ysgolion gyda chyfradd ymateb o 68.7%. Mae 3 ysgol wedi anfon arolygon galw at rieni ac rydyn ni'n</p>
--	--	--	--	--	--	--

							<p>aros am ganlyniadau a fydd yn cael eu cynnwys yn y diweddariad nesaf o'r cynllun gweithredu.</p> <p>Bydd ardaloedd pellach yn cael eu targedu ar draws RhCT dros y 4 blynedd nesaf i asesu'r galw.</p>
1.5	<p>Ymchwilio i'r galw am ofal diwrnod llawn ychwanegol yng Ngogledd-ddwyrain Taf-elái</p>	<p>Ymgynghori â rhieni / gwarcheidwaid yn yr ardal a nodwyd i bennu'r angen</p> <p>Ymgynghori â darpariaeth gofal diwrnod llawn lleol i asesu pa mor llawn maen nhw ar hyn o bryd a phenderfynu a fyddai'n bosibl ehangu</p> <p>Nodi darparwyr/ lleoliad newydd yn yr ardal os</p>	<p>Carfan Datblygu Gofal Plant</p> <p>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p> <p>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p>	<p>Diffyg ymatebion i ymgynghoriadau gan rieni/gwarcheidwaid</p> <p>Mae rhiant/ gwarcheidwad yn datgan bod angen gwasanaeth adeg cwblhau'r arolwg. Pan gaiff y gwasanaeth ei ddarparu, dydy'r rhieni/gwarcheidwaid ddim yn ei gwblhau.</p>	<p>Darparwr a darpariaeth newydd yn cael eu canfod yn yr ardal i gynnig gofal diwrnod llawn a bodloni'r galw</p> <p>Staff â chymwysterau addas ar gael</p> <p>Gwasanaethau presennol yn cael eu hehangu i fodloni'r galw a nodwyd</p>	<p>Erbyn mis Mawrth 2021</p>	<p>Oherwydd ailstrwythuro gwasanaeth Dechrau'n Deg o fewn yr Awdurdod Lleol mae pob lleoliad sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol ac sy'n cael ei gynnal ganddo ar draws RhCT wedi'u tendro i gwmnïau gofal plant preifat. Roedd un o'r lleoliadau yn cynnwys Meithrinfa ddydd Pontypridd (lleoliad DD blaenorol). Bydd cwmni gofal plant preifat yn cymryd hyn o fis Medi 2023.</p>

		<p>caiff yr angen am y ddarpariaeth yma ei gadarnhau</p>		<p>Grantiau ehangu wedi'u cyfyngu i gynnig cymorth ariannol ar gyfer cynaliadwyedd</p> <p>Diffyg staff â chymwysterau addas / diffyg staff yn y gweithlu</p> <p>Darparwyr presennol ddim yn dymuno ehangu eu gwasanaeth</p>			<p>Daw hyn yn ddarpariaeth gofal dydd llawn ac economi gymysg. Bydd hyn yn bodloni'r galw a'r angen am ofal plant yng Ngogledd Taf-elái.</p> <p>Yn ogystal â hyn mae lleoliad gofal plant preifat arall yn agor ei ddarpariaeth gofal dydd llawn yn adeilad YMa ym Mhontypridd, a fydd yn darparu lleoedd gofal plant ychwanegol i ateb y galw. Y dyddiad agor answyddogol yw mis Medi 2023.</p> <p>Mae cyfarfodydd hefyd wedi'u cynnal rhwng Carfan Gofal Plant RhCT a Mudiad Meithrin i asesu'r galw am wasanaethau gofal plant Cymraeg yn ardal Pontypridd ac</p>
--	--	--	--	---	--	--	--



							mae trafodaethau'n parhau.
1.6	<p>Monitro effaith datblygiadau tai ar anghenion gofal plant, yn enwedig yn yr ardaloedd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Llanilid (Brynna)</li> <li>○ Llanilltud Faerdref</li> <li>○ Pen-y-graig</li> </ul>	<p>Gweithio mewn ymgynghoriad â'r Adran Gynllunio</p> <p>Cefnogi'r ddarpariaeth gofal plant presennol yn yr ardal i ehangu</p>	<p>Carfan Datblygu Gofal Plant</p> <p>Yr Adran Gynllunio</p> <p>Partneriaeth Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p>	<p>Efallai y bydd twf yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael</p> <p>Efallai na fydd modd cofrestru digon o leoedd gofal plant i ateb y galw</p>	<p>Digon o leoedd gofal plant i ateb y galw yn y sefydliadau gofal plant presennol</p> <p>Ehangu'r ddarpariaeth gofal plant presennol mewn ardaloedd lle mae angen wedi'i nodi</p> <p>Cymorth ar gael i sefydlu darpariaethau newydd mewn ardaloedd lle mae galw</p> <p>Cynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda'r garfan cynllunio i nodi anghenion gofal plant h.y. gweithgorau</p>	<p>Parhaus – adolygu bob 6 mis</p> <p>Adolygiad cyntaf Rhagfyr 2022</p>	<p>Mae'r cam yma'n cael sylw ac yn gweithio arno ar hyn o bryd</p> <p>Bydd diweddariadau pellach ar gael yn yr adroddiad ar y cynllun gweithredu nesaf</p>

<p>1.7</p>	<p>Cefnogi darparwyr gofal sesiynol heb eu cofrestru i gofrestru gydag AGC ac ymchwilio i'r galw am wasanaethau gofal sesiynol ychwanegol yn yr ardaloedd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Gogledd Cwm Cynon</li> <li>○ De Cwm Cynon</li> <li>○ Gogledd Cwm</li> <li>○ De Cwm Rhondda</li> </ul>	<p>Ymgysylltu â lleoliadau sydd heb eu cofrestru i fesur eu diddordeb mewn cofrestru</p> <p>Cydgysylltu â'r GGD i gasglu manylion lleoliadau sydd heb eu cofrestru</p> <p>Cynnal ymgynghoriadau â rhieni/ gwarcheidwaid i bennu'r galw am ofal sesiynol</p>	<p>Carfan Datblygu Gofal Plant</p> <p>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p> <p>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p>	<p>Efallai na fydd lleoliadau sydd heb eu cofrestru yn gallu cofrestru oherwydd problemau gyda'r lleoliad</p> <p>Efallai na fydd modd i leoliadau gofrestru oherwydd cyfyngiadau o ran mynediad os ydyn nhw mewn lleoliad a rennir</p> <p>Lleoliadau'n anfodlon ymgysylltu â'r garfan a chofrestru</p> <p>Gan nad ydyn nhw wedi'u cofrestru, efallai na fydd yr Awdurdod Lleol yn effro o bob lleoliad sydd heb eu cofrestru</p>	<p>Lleoliadau presennol sydd heb eu cofrestru yn cael eu cofrestru gydag AGC</p> <p>Lleoliadau sydd heb eu cofrestru yn ymgysylltu a chydweithredu â Charfan Gofal Plant RhCT i drafod y rhwystrau o ran cofrestru</p>	<p>Mapio lleoliadau sydd heb eu cofrestru erbyn mis Hydref 2022</p> <p>Cysylltu'n unigol â lleoliadau erbyn Ionawr 2023</p> <p>Rhoi cynlluniau cymorth ar waith ar gyfer y rhai sy'n dymuno cofrestru erbyn mis Mawrth 2022</p> <p>Cyfathrebu'n barhaus gyda'r rhai sydd ddim yn dymuno cofrestru</p>	<p>Mae ymgysylltiad cyfyngedig o hyd o leoliadau anghofrestredig</p> <p>Dyfeisiwyd taflen i hysbysebu manteision cofrestru gydag AGC, a chafodd ei hanfon drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'i hysbysebu ar ein grŵp Facebook. Trwy e-bost a thrwy'r post</p> <p>Ni chafwyd unrhyw ymatebion. Rydyn ni hefyd wedi datblygu pecyn cymorth gyda chymorth ariannol i fodloni gofynion cofrestru, fodd bynnag, dim ond 1 lleoliad anghofrestredig sydd wedi cofrestru gydag AGC yn ddiweddar. Mae gwaith yn mynd rhagddo i dargedu lleoliadau</p>
------------	--	---	--	--	--	---	---

							heb eu cofrestru a chynnig cymorth ar gyfer cofrestru. Bydd diweddariadau pellach yn cael eu darparu yn y diweddariad nesaf o'r cynllun gweithredu.
<b>2 – Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg</b>							
2.1	Ymgysylltu â darparwyr gofal y tu allan i oriau'r ysgol cyfrwng Cymraeg sydd heb eu cofrestru, a'u cefnogi i gofrestru gydag AGC ac ymestyn gwasanaethau i ddarparu gofal yn ystod y gwyliau mewn ardaloedd o alw a nodwyd	Cysylltu â lleoliadau cyfrwng Cymraeg sydd heb eu cofrestru i gofrestru gydag AGC  Gweithio gyda phartneriaid i nodi anghenion  Nodi pecynnau cymorth i alluogi cofrestru	Carfan Datblygu Gofal Plant  Menter Iaith  Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae  Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd	Lleoliadau Cymraeg yn dymuno aros yn ddarpariaeth sydd heb ei chofrestru  Cymwysterau staff neu gyfyngiadau o ran y lleoliad yn atal cofrestru	Lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn cael eu cofrestru gydag AGC  Lleoliadau Cymraeg yn cynnig gofal yn ystod y gwyliau mewn ardaloedd o alw a nodwyd	Cysylltu'n unigol â lleoliadau erbyn Ionawr 2023  Rhoi cynlluniau cymorth ar waith ar gyfer y rhai sy'n dymuno cofrestru erbyn mis Mawrth 2022  Cyfathrebu'n barhaus gyda'r rhai sydd ddim yn dymuno cofrestru	Nodwyd cyfarfodydd gyda darparwyr Cymraeg y Tu Allan i Oriau Ysgol Lleol  Mae angen rhagor o waith gyda sefydliadau fel Menter Iaith i fynd i'r afael â rhwystrau i gofrestru gydag AGC a sut y gallwn ni fel Awdurdod Lleol gefnogi  Diweddariadau pellach i'w darparu ar ddiweddariad nesaf y cynllun gweithredu

2.2	Archwilio'r galw am Gylchoedd Meithrin newydd mewn ardaloedd daearyddol a nodwyd yn yr ymarfer mapio	Ymgynghori â rhieni/ gwarcheidwaid mewn ardaloedd a nodwyd yn yr ymarfer mapio  Gweithio mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin i asesu'r galw	Carfan Datblygu Gofal Plant  Mudiad Meithrin  Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae  Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd	Diffyg darparwyr sy'n fodlon agor lleoliadau newydd  Diffyg lleoliadau addas mewn meysydd o alw  Diffyg ymatebion i arolygon rhieni/ gwarcheidwaid	Cylchoedd Meithrin newydd yn cael eu hagor mewn ardaloedd o angen a nodwyd  Lleoliadau addas yn cael eu nodi mewn ardaloedd o angen trwy'r ymarfer mapio	Ymgynghoriad yn yr ardal gyntaf a nodwyd erbyn mis Mawrth 2023  Nodi camau gweithredu lleol o'r ymgynghoriad erbyn mis Mai 2023	<p>Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Mudiad Meithrin i fynd i'r afael â'r galw am Gylchoedd Meithrin newydd mewn ardaloedd o angen a nodwyd</p> <p>Mae ymarfer mapio wedi'i gwblhau a bylchau mewn ardaloedd daearyddol wedi'u hamlygu. Mae Pontypridd wedi'i hamlygu yn ardal posibl i'w datblygu ac mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi lleoliadau addas. Mae bylchau daearyddol yng Nghwm Rhondda ganol/isaf hefyd yn cael eu harchwilio.</p> <p>Diweddariadau pellach i'w darparu yn y diweddariad nesaf o'r cynllun gweithredu.</p>
2.3	Ymchwilio i fylchau posibl	Ymgynghori â rhieni /	Carfan Datblygu Gofal Plant	Diffyg ymatebion i arolygon rhieni/	Digon o ofal plant cyfrwng	Yn parhau	Mae cyfarfodydd cychwynnol wedi eu

	<p>mewn gofal sesiynol a gofal diwrnod llawn cyfrwng Cymraeg yn Ne Cwm Rhondda</p>	<p>gwarcheidwaid mewn ardaloedd a nodwyd i asesu'r galw</p> <p>Ymgysylltu â lleoliadau cyfrwng Cymraeg presennol yn yr ardal</p> <p>Nodi cyfleoedd i ehangu</p>	<p>Mudiad Meithrin</p> <p>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p> <p>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p>	<p>gwarcheidwaid</p> <p>Dim llawer o alw am ofal oriau dydd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal</p> <p>Dim llawer o ddarparwyr yn dymuno sefydlu darpariaeth</p>	<p>Cymraeg yn yr ardal i ateb y galw</p> <p>Darparwr yn cytuno i sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd yn yr ardal</p> <p>Perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda Mudiad Meithrin i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth</p>		<p>cynnal gyda Mudiad Meithrin i nodi bylchau yn y ddarpariaeth yn ardaloedd daearyddol RhCT.</p> <p>Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch cynaliadwyedd darpariaethau gofal dydd llawn newydd drwy gyfrwng y Gymraeg a bydd diweddariadau pellach yn cael eu darparu yn y diweddariad nesaf o'r cynllun gweithredu.</p>
2.4	<p>Cynnig cymorth a hyfforddiant i siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn hyderus er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu lleoliadau a hyrwyddo eu hunain yn</p>	<p>Cynnig hyfforddiant i ddarparwyr yn ystod oriau sy'n gyfleus i'r dysgwyr</p> <p>Cyfeirio dysgwyr at hyfforddiant Cymraeg sy'n bodoli eisoes</p>	<p>Carfan Datblygu Gofal Plant</p> <p>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p> <p>Darparwyr hyfforddiant</p>	<p>Diffyg manteisio ar yr hyfforddiant sy'n cael ei gynnig</p> <p>Dim amser gan leoliadau i fynychu sesiynau hyfforddi yn sgil problemau staffio</p>	<p>Lleoliadau yn derbyn hyfforddiant Cymraeg ac yn ei ddefnyddio yn eu lleoliadau</p> <p>Staff yn fwy hyderus yn eu gallu i siarad Cymraeg ac yn hyrwyddo'u</p>	<p>Ym mynd rhagddo – mapio cychwynnol yr hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd yn yr Hydref 2022</p>	<p>Mae'r Garfan Gofal Plant yn hyrwyddo sefydliadau ymbarél sy'n hyfforddi yn yr iaith Gymraeg i bob darparwr gofal plant ar draws RhCT trwy e-bost a grŵp Facebook</p> <p>Mae cyfeirio at gyrsiau megis</p>

	Ileoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog	Comisiynu sesiynau hyfforddi mewnol trwy raglen hyfforddi'r garfan gofal plant  Ymgysylltu â'r sector i ganfod rhwystrau i ddefnyddio mwy o Gymraeg mewn lleoliadau	Gofal Cymdeithasol Cymru	Argaeledd cyrsiau ar amseroedd addas ar gyfer y gweithlu gofal plant  Diffyg hyfforddiant addas i'w gomisiynu'n fewnol	hunain fel lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog		Camau, addewid Cymraeg Pacey a chynlluniau eraill sydd ar gael yn cael eu hyrwyddo'n rheolaidd i'r sector ochr yn ochr â'r budd i blant o leoliadau sy'n cynnig gwasanaethau dwyieithog  Mae hwn yn parhau i fod yn gam gweithredu parhaus
2.5	Hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol i leoliadau ac annog cyfranogiad	Cynnig cymorth a chyngor i leoliadau i'w hannog i gymryd rhan yn y Cynnig Rhagweithiol Cymraeg  Cysylltu darparwyr â'r hyfforddiant Cymraeg sydd ar gael	Carfan Datblygu Gofal Plant  Mudiad Meithrin  Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae  Gofal Cymdeithasol Cymru	Darparwyr gofal plant ddim yn manteisio ar hyfforddiant i weinyddu'r cynnig gweithredol  Hyfforddiant yn y Gymraeg ddim yn addas ar gyfer llwyth gwaith y sector gofal plant	Lleoliadau'n cynnig y cynnig gweithredol Cymraeg  Lleoliadau yn manteisio ar hyfforddiant i wella'u sgiliau a'u gallu o ran y Gymraeg	Yn parhau	Mae'r Garfan Gofal Plant yn parhau i weithio gyda sefydliadau ymbarél i hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol ac annog lleoliadau i gymryd rhan
2.6	Hyrwyddo i ddenu rhagor o	Gweithio mewn partneriaeth â	Carfan Datblygu Gofal Plant	Pryderon darpar warchodwyr	Rhagor o warchodwyr	Yn parhau	Mae Carfan Gofal Plant RhCT yn

	warchodwyr plant Cymraeg eu hiaith	<p>phartneriaid Cymraeg i hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa</p> <p>Gweithio mewn partneriaeth â PACEY Cymru i nodi a oes cynlluniau eisoes ar waith i ddenu gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg a'u cynnwys mewn ymgyrch hyrwyddo leol</p> <p>Ymgysylltu â gwarchodwyr plant i ganfod unrhyw rai sy'n gallu siarad Cymraeg ond sydd ddim yn hyrwyddo'u hunain fel siaradwyr Cymraeg</p>	<p>Mudiad Meithrin PACEY Cymru</p> <p>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p>	<p>plant newydd ynghylch cynaliadwyedd eu busnes</p> <p>Mae'r amserlenni ar gyfer cwblhau proses cyn-gofrestru a chais gydag AGC yn hir. Efallai bydd hyn yn atal rhai rhag symud ymlaen</p> <p>Diffyg diddordeb o ran dod yn warchodwr plant</p>	plant yn cael eu cofrestru fel rhai sy'n cynnig eu gwasanaeth yn ddwyieithog neu yn Gymraeg		<p>cyfarfod yn rheolaidd â Pacey i drafod cymorth parhaus i warchodwyr plant. Mae Pacey yn cynnig cefnogaeth i warchodwyr plant sydd am gynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Mae gwarchodwyr plant RhCT yn cael eu cyfeirio at Pacey am gefnogaeth.</p> <p>Nifer cyfyngedig sy'n manteisio ar hyn o bryd</p>
2.7	Cefnogi nodau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn	Casglu data ar gyfraddau pontio i ddsbarthiadau	Carfan Gofal Plant	Niferoedd sy'n mynd i addysg cyfrwng	Cyfraddau pontio o ofal plant cyfrwng	Dadansoddi data erbyn Rhagfyr 2022	Mae'r Garfan Gofal Plant yn parhau i gefnogi'r camau

	Addysg i gynyddu cyfraddau pontio o ofal plant cyfrwng Cymraeg i addysg cyfrwng Cymraeg	meithrin cyfrwng Cymraeg  Ymgysylltu â lleoliadau cyfrwng Cymraeg i drafod gwybodaeth, rhwystrau a materion o ran pontio  Ymgysylltu ag ysgolion i wella cysylltiadau â lleoliadau gofal plant sy'n bwydo iddyn nhw	Lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg  Grŵp Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg  Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae	Cymraeg ddim yn cynyddu yn unol â thargedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg  Methu â goresgyn unrhyw rwystrau a nodwyd	Cymraeg i addysg cyfrwng Cymraeg yn cynyddu	Ymgysylltu â lleoliadau / ysgolion Parhaus	<b>gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg</b>  <b>Mae gwaith yn cael ei wneud gyda Mudiad Meithrin ac ysgolion RhCT a Meithrin i gynyddu cyfraddau trosglwyddo o Ofal Plant cyfrwng Cymraeg i addysg cyfrwng Cymraeg</b>  <b>Ceir diweddariadau pellach yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP)</b>
--	---	---	---	--	---	--	---

### 3 – Fforddiadwyedd gofal plant

3.1	Parhau i hyrwyddo manteision ariannol y Cynnig Gofal Plant, gan bwysleisio'n arbennig yr hawl	Hyrwyddo Cynnig Gofal Plant i rieni / gwarcheidwaid yn ystod achlysuron cyhoeddus fel picnic y tedis, llyfrgelloedd,	Carfan Datblygu Gofal Plant  Carfan Cynnig Gofal Plant  Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd	Darparwyr yn rhoi gwybodaeth anghywir i rieni  Rhieni yn parhau i fod yn ansicr ynghylch cymhwysedd a buddion y	Mwy o leoedd Cynnig Gofal Plant ar gael i rieni/ gwarcheidwaid  Mwy o ddewis o ddarparwyr ar gyfer rhieni/	Cyfnod hyrwyddo cychwynnol tymor yr Hydref 2022 yn unol â chyflwyno'r system	<b>Mae carfan y Cynnig Gofal Plant a Gofal Plant yn parhau i hyrwyddo manteision ariannol y Cynnig Gofal Plant a gwneir hyn yn y ffyrdd a ganlyn:</b>
-----	---	--	---	---	---	--	---



	<p>yn ystod y gwyliau</p>	<p>canolfannau hamdden ac ymweliadau rhieni a phlant bach</p> <p>Sicrhau bod yr wybodaeth ar y wefan yn gywir, yn gyfredol ac yn cael ei hyrwyddo</p> <p>Annog darpariaethau gofal plant i hysbysebu a hyrwyddo'r Cynnig Gofal Plant</p> <p>Ymgysylltu ag ysgolion lleol yn RhCT i hyrwyddo hawl y Cynnig Gofal Plant yn ystod y gwyliau i blant meithrin</p>	<p>Darparwyr Gofal Plant</p>	<p>Cynnig Gofal Plant</p> <p>Dim cynnydd yn y niferoedd sy'n gwneud cais am y Cynnig</p>	<p>gwarcheidwaid</p> <p>Yr hawl yn ystod y gwyliau'n cael ei fanteisio arno a'i ddefnyddio'n effeithiol</p> <p>Achlysuron hyrwyddo yn targedu rhieni sydd â phlant 3-4 oed cymwys a chynnydd yn nifer y plant sy'n manteisio ar y Cynnig</p>	<p>genedlaethol newydd</p> <p>Adolygu bob 3 mis wedi hynny</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymweliadau grŵp Rhieni a Phlant ar draws RhCT yn wythnosol fel rota barhaus</li> <li>• Sesiynau galw heibio llyfrgelloedd lleol yn cael eu cynnig i rieni a darparwyr gan y Garfan Cynnig Gofal Plant</li> <li>• Mynychu ffeiriau gyrfaoedd a hyrwyddo i rieni/gofalwyr /cyflogwyr</li> <li>• Hysbysebu hyrwyddol ar Facebook, gwefan y cyngor a thrwy leoliadau gofal plant</li> <li>• Hysbysebu mewn bwydlenni ar</li> </ul>
--	---------------------------	---	------------------------------	--	--	--	---

							<p>draws canolfannau chwarae meddal yn RhCT</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynychu cyfarfodydd derbyn meithrinfa yn RhCT</li> <li>• Negeseuon cyfryngau cymdeithasol a thafleuni rheolaidd yn cael eu gadael mewn canolfannau hamdden a llyfrgelloedd lleol</li> </ul> <p>Mae cynllun cyfathrebu'r Cynnig Gofal Plant yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.</p>
3.2	Rhoi cymorth i ddarparwyr gofal plant i dderbyn taliad drwy'r cynllun Gofal Plant Di-dreth	Hyrwyddo'r buddion o gofrestru i gynnig y cynllun Gofal Plant Di-dreth neu dalebau	<p>Carfan Datblygu Gofal Plant</p> <p>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p>	Lleoliadau ddim yn cynnig cynlluniau fel Gofal Plant Di-dreth	Cynnydd yn nifer y lleoliadau sy'n derbyn taliadau trwy Ofal Plant Di-dreth neu dalebau gofal	Hyrwyddo cychwynnol Gwanwyn 2023	Mae carfan Gofal Plant RhCT wedi cael ei dewis i wneud darn o waith gyda Hemsalls i hyrwyddo Gofal

	<p>neu dalebau gofal plant gan gyflogwyr</p>	<p>gofal plant gan gyflogwyr</p> <p>Sesiynau cymorth i ddarparwyr i gynnig cyngor ar sut i gofrestru er mwyn cynnig y cynlluniau a nodwyd</p> <p>Gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i hysbysebu'r cynlluniau a'u hyrwyddo i leoliadau a rhieni</p>	<p>Darparwyr Gofal Plant</p> <p>Partneriaeth Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p>	<p>Lleoliadau'n ansicr ar sut i ymuno â'r cynlluniau neu'n methu ag ymuno</p>	<p>plant gan gyflogwyr</p> <p>Lleoliadau'n manteisio ar sesiynau cymorth a chynngor ar sut i gofrestru ar y cynlluniau a nodwyd</p>	<p>Adolygu bob 3 mis wedi hynny</p>	<p>Plant Di-dreth i rieni, gwarcheidwaid a darparwyr Gofal Plant yn yr ardal er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio arno.</p> <p>Mae hyn yn cynnwys dyfeisio cynllun gweithredu unigol sy'n berthnasol i RhCT yn unig i hyrwyddo'r gwasanaeth TFC a hyrwyddo ei fanteision.</p> <p>Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd (unwaith bob 6 wythnos) rhwng Hemsalls a RhCT i hyrwyddo'r gwasanaeth yn weithredol, rhoi adborth ar gynnydd a darparu diweddariadau data.</p> <p>Mae hyn yn parhau a bydd gwybodaeth ystadegol bellach yn cael ei darparu yn y diweddariad nesaf</p>
--	--	--	--	---	---	-------------------------------------	---

							o'r cynllun gweithredu.
3.3	Gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i hyrwyddo opsiynau gofal plant a chymorth ariannol i rieni	<p>Sicrhau bod gwybodaeth am gymorth ariannol yn gyfredol ar wefannau a chyfryngau cymdeithasol</p> <p>Ailsefydlu cysylltiadau ag Ymgynghorwyr rhieni sydd ar eu pennau eu hunain y Ganolfan Byd Gwaith i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i gleientiaid</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a charfanau datblygu gofal plant/Cynnig Gofal Plant yn mynychu achlysuron i</p>	<p>Carfan Datblygu Gofal Plant</p> <p>Carfan y Cynnig Gofal Plant</p> <p>Partneriaeth Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p> <p>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p> <p>Y Ganolfan Byd Gwaith/Ymgynghorwyr rhieni sydd ar eu pennau eu hunain</p>	<p>Yr wybodaeth ddiweddaraf heb ei rhoi ar wefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, neu heb ei dosbarthu i ddarparwyr gofal plant</p> <p>Cysylltau ag ymgynghorwyr rhieni sydd ar eu pennau eu hunain y Ganolfan Byd Gwaith heb eu cynnal</p>	<p>Teuluoedd yn effro i'r cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer costau gofal plant ac yn gwybod sut i fanteisio arno</p> <p>Rhieni/gwarcheidwaid yn cael eu cefnogi i ddechrau cyflogaeth a/neu gael hyfforddiant</p> <p>Cynnydd yn swp a math yr wybodaeth sydd ar wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p>	Adolygu bob 6 mis	<p>Mae Carfan y Cynnig Gofal Plant a Gofal Plant yn anfon gwybodaeth yn rheolaidd i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i'w lledaenu i rieni/gwarcheidwaid a darparwyr gofal plant ar draws RhCT</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd bellach yn rhan o garfan ehangach (plant a phobl ifainc) a chynigir gwybodaeth am y gwasanaeth i rieni, gwarcheidwaid – drwy wefan benodol newydd i deuluoedd. Mae gan rieni a gwarcheidwaid y cyfleuster o hyd i e-bostio neu ffonio'r gwasanaeth.</p>

		<p>ddosbarthu gwybodaeth i deuluoedd</p> <p>Rhoi gwybodaeth i ddarparwyr gofal plant er mwyn iddyn nhw ei dosbarthu i deuluoedd</p>					<p>Mae gwybodaeth am gymorth ariannol i rieni fel arfer yn cael ei throsglwyddo i'n carfan gan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd felly mae angen gwneud rhagor o waith yn fewnol i sicrhau bod Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu'r holl gyngor sydd ei angen i deuluoedd.</p>
--	--	---	--	--	--	--	--

#### 4 – Plant a chanddyn nhw anghenion addysgol arbennig neu anableddau

4.1	<p>Archwilio'r galw am ofal yn ystod y gwyliau i blant ag anghenion ychwanegol neu anabledd</p>	<p>Ymgynghori â rhieni / gwarcheidwaid plant ag anghenion dysgu ychwanegol / anabledd i nodi angen am ofal yn ystod y gwyliau / rhwystrau rhag cael mynediad iddo</p>	<p>Carfan Datblygu Gofal Plant</p> <p>Swyddog Arweiniol ADY y Blynnyddoedd Cynnar</p> <p>Partneriaeth Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p>	<p>Ddim yn mynd i'r afael â'r rhwystrau rhag manteisio ar ofal yn ystod y gwyliau</p> <p>Teuluoedd ddim yn effro i'r opsiynau sydd ar gael iddyn nhw</p> <p>Ffrydiau cyllido a nodwyd ddim yn</p>	<p>Plant yn gallu manteisio ar ofal yn ystod y gwyliau sy'n bodloni eu hanghenion</p>	<p>Ymarfer cwmpasu cychwynnol erbyn mis Rhagfyr 2022</p> <p>Camau gweithredu wedi'u nodi erbyn Gwanwyn 2023</p>	<p>Mae gwasanaeth GofaliChwarae yn gweithredu yn RhCT. Mae'n galluogi plant a phobl ifainc i oresgyn y rhwystrau y gallen nhw fod yn eu hwynebu i'w galluogi i gael mynediad i chwarae mynediad agored. Mae chwarae mynediad agored yn</p>
-----	---	---	---	---	---	---	--

		<p>Ymgysylltu â darparwyr i ymestyn gwasanaethau yn ystod y gwyliau</p> <p>Hyrwyddo cymorth sydd ar gael i deuluoedd i gael mynediad i ofal plant yn ystod y gwyliau</p>	<p>Dechrau'n Deg</p> <p>Y Garfan Chwarae</p>	<p>gynaliadwy neu heb eu halinio â'i gilydd</p>			<p>cael ei gomisiynu mewn sawl maes ar draws RhCT (17 darpariaeth 2023-24) ar gyfer plant a phobl ifainc 5-14 oed. Derbynnir atgyfeiriadau gan Wasanaeth teuluoedd Cydnerth a'r Garfan Plant Anabl ac os daw plentyn yn blentyn GofaliChwarae, mae hyn yn golygu bod lle wedi'i neilltuo ar eu cyfer yn ystod sesiwn chwarae unwaith yr wythnos yn ystod y tymor a dwywaith yr wythnos yn ystod y gwyliau. Mae mwyafrif y sesiynau yn 2 awr o hyd, er bod rhai darparwyr Chwarae wedi cofrestru gydag AGC yn cynnig sesiynau hirach dros lai o ddyddiau. Cynigir sesiynau ar gymhareb 1:1, 1:2 neu 1:3 yn dibynnu</p>
--	--	--	--	---	--	--	---

							<p>ar anghenion y plentyn.</p> <p>Mae'r rhaglen yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, felly gallai newid erbyn y diweddariad nesaf o'r cynllun gweithredu.</p>
4.2	<p>Dod o hyd i gyfleoedd i wella mynediad i ofal plant a darpariaeth y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant ag anghenion dysgu a chorfforol ychwanegol</p>	<p>Cefnogi darparwyr gofal plant i fanteisio ar hyfforddiant addas, arbenigol</p> <p>Ystyried y rhwystrau sy'n rhwystro teuluoedd rhag manteisio ar ofal plant a darpariaeth y blynyddoedd cynnar</p> <p>Sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael i deuluoedd plant sydd ag anghenion ychwanegol</p>	<p>Carfan Datblygu Gofal Plant</p> <p>Darparwyr Gofal Plant</p> <p>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p> <p>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p> <p>Carfan hyfforddi Dechrau'n Deg</p>	<p>Costau cymorth uwch yn rhwystrol i leoliadau / teuluoedd</p> <p>Diffyg staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol</p> <p>Diffyg darpariaeth addas sy'n agos i gartrefi plant</p>	<p>Modd i deuluoedd gael mynediad at ofal plant sy'n diwallu anghenion eu plant</p> <p>Lleoliadau gofal plant yn llwyr hygyrch i bob plentyn</p> <p>Staff wedi'u hyfforddi'n addas i ddiwallu anghenion y plentyn</p>	<p>Ymarfer cwmpasu cychwynnol erbyn mis Rhagfyr 2022</p> <p>Camau gweithredu wedi'u nodi erbyn Gwanwyn 2023</p>	<p>Mae gan RCT Swyddog Arweiniol Blynyddoedd Cynnar ac ADY sy'n cynnig cyngor a modiwlau hyfforddi i leoliadau gofal plant ar sail dreigl drwy gydol y flwyddyn academaidd.</p> <p>Mae sesiynau cyngor a chymorth wedi'u cynnig i leoliadau gofal plant lle bo'n berthnasol ac mae paneli cynghori ar gyfer cymorth manwl. Mae'r prosesau ar gyfer cyfeirio plant i Fforwm y Blynyddoedd</p>

							<p>Cynnar wedi'u hadolygu ac roedd pob lleoliad yn effro i'r gofynion.</p> <p>Ar gyfer plant sy'n cael eu hariannu drwy'r Cynnig Gofal Plant, Dechrau'n Deg neu ddarparwyr addysg sydd ddim yn cael eu cynnal, mae panel Cyllid Capasiti Mwy sy'n gallu dyfarnu cyllid i leoliadau i gefnogi eu capasiti staffio os oes ganddyn nhw nifer o blant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg neu ymddygiad heriol.</p> <p>Dyw'r broses yma ddim yn statudol a dim ond os bydd cyllid yn caniatáu y caiff ei chynnig.</p> <p>Diben y broses yw cefnogi'r lleoliad yn ei gyfanrwydd, nid plant unigol.</p> <p>Roedd y Garfan Gofal Plant yn cynnig hyfforddiant</p>
--	--	--	--	--	--	--	--



							Ymwybyddiaeth Makaton ac Awtistiaeth i leoliadau gofal plant cyffredinol ond roedd presenoldeb yn y rhain ac ni chawsant eu defnyddio. Bydd cyrsiau pellach yn parhau i fod yn ddibynnol ar gyllid.
4.3	Cynyddu ymwybyddiaeth o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET) a chyfrifoldebau'r lleoliad i blant a'u teuluoedd	Hyrwyddo rhaglen hyfforddi ADY i leoliadau  Dosbarthu taflen Fforwm y Blynyddoedd Cynnar i bob lleoliad  Cynnwys gwybodaeth yng nghylchlythyr tymhorol gofal plant  Dangos i leoliadau ble mae cael gwybodaeth a	Carfan Datblygu Gofal Plant  Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar  Dechrau'n Deg  Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar  Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd	Lleoliadau ddim yn effro i'w cyfrifoldebau ac felly ddim yn cynnig y lefel gywir o gymorth  Lleoliadau ddim yn manteisio ar yr hyfforddiant sydd ar gael	Modd i bob lleoliad gael mynediad at hyfforddiant ar adegau sy'n gyfleus iddyn nhw  Holl staff gofal plant yn gwbl effro i'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'u cyfrifoldebau  Plant yn cael cymorth ac	Hyrwyddo amserlen hyfforddi yn mynd rhagddo  Ymgyrch ymwybyddiaeth / sesiynau gwybodaeth yn nhymor yr Hydref 2022	Mae'r Garfan Gofal Plant yn anfon gwybodaeth yn rheolaidd at ddarparwyr Gofal Plant yn RhCT trwy e-bost a grŵp caeedig Facebook y garfan o amgylch amserlen hyfforddi ADY.  Mae'r garfan Gofal Plant ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r Garfan Cyswllt Teuluol ac Achosion Cymhleth mewn Mynediad a Chynhwysiant i hyrwyddo pontio

		chymorth ychwanegol			anghenion unigol yn cael eu diwallu mewn lleoliadau gofal plant		rhwng plant ag anghenion ychwanegol o leoliadau gofal plant i ysgolion. Mae gweithdy i ddarparwyr gofal plant i fod i gael ei gynnal ym mis Medi 2023.
4.4	Cynnig hyfforddiant ar amrywiaeth i ddarparwyr gofal plant i wella cynhwysiant o fewn lleoliadau	<p>Nodi hyfforddiant addas a chomisiynu cyrsiau a nodwyd</p> <p>Hyrwyddo hyfforddiant i'r sector / gwerthuso effaith</p> <p>Dangos i leoliadau ble mae cael gwybodaeth a chymorth ychwanegol</p>	<p>Carfan Datblygu Gofal Plant</p> <p>Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar</p> <p>Dechrau'n Deg</p> <p>Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar</p> <p>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p>	<p>Lleoliadau ddim yn manteisio ar yr hyfforddiant sydd ar gael</p> <p>Materion yn dal i gael eu hadrodd</p>	<p>Modd i bob lleoliad gael mynediad at hyfforddiant ar adegau sy'n gyfleus iddyn nhw</p> <p>Plant yn cael cymorth ac anghenion unigol yn cael eu diwallu mewn lleoliadau gofal plant</p>	<p>Hyfforddiant wedi'i nodi a'i hyrwyddo erbyn Rhagfyr 2022</p>	<p>Cynigiodd y Garfan Gofal Plant hyfforddiant amrywiaeth i leoliadau gofal plant ym mis Rhagfyr 2022.</p> <p>Doedd y presenoldeb ddim yn dda yn y sesiynau – dim ond 8/12 o leoedd a archebwyd a dim ond 4 cyfranogwr a fynychodd.</p> <p>Bydd cyrsiau pellach yn cael eu comisiynu yn dibynnu ar gyllidebau yn ddiweddarach yn y</p>

flwyddyn ariannol  
2023/2024.

## 5 – Cymorth i'r sector gofal plant

5.1	Parhau i gynnig grantiau i gefnogi darpariaeth newydd neu ehangu darpariaeth bresennol, ac i gefnogi lleoliadau sy'n wynebu caledi ariannol difrifol	Cefnogi datblygiadau newydd a hyrwyddo grantiau sydd ar gael i ddarparwyr  Hyrwyddo grantiau caledi ariannol i leoliadau	Carfan Datblygu Gofal Plant  Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae  Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd	Ffrydiau cyllido yn gyfyngedig a does dim modd iddyn nhw gefnogi pob cais  Efallai na fydd lleoliadau sy'n profi caledi ariannol eisiau ymgysylltu â'r ALI  Er gwaethaf cynnig cymorth caledi ariannol, mae rhai lleoliadau yn parhau i fod yn anghynnaladwy	Pob lleoliad sy'n gwneud cais am gyllid yn cael cymorth  Cynaliadwyedd y lleoliadau wedi'u diogelu	Yn parhau	Mae'r garfan gofal plant yn parhau i gynnig grantiau darpariaeth gofal plant newydd ac ehangu a grantiau cymorth ariannol i leoliadau gofal plant ar sail blwyddyn ariannol.  Yn 2022/23- rhoddwyd 3 grant darpariaeth newydd a 2 grant ehangu i ddarparwyr gofal plant i ddechrau neu ymestyn eu gwasanaethau gofal plant.  Dyfarnwyd 3 grant cymorth ariannol i leoliadau oedd mewn perygl o gau yn fuan i'w cefnogi i aros yn gynaliadwy ac yn weithredol.
-----	--	--	---	--	--	-----------	---

							<p>Cynigiwyd grant costau byw o £200 fesul lleoliad i leoliadau gofal plant cofrestredig AGC fel taliad tuag at gostau staff, gwresogi, trydan, rhent neu gostau cynaliadwyedd eraill. Fe wnaeth 174 o leoliadau gofal plant cofrestredig AGC fanteisio ar y grant yma ar draws RhCT.</p> <p>Mae grantiau newydd/ehangu a chymorth ariannol yn parhau i fod ar agor i Ddarparwyr Gofal Plant eu cyrchu drwy gydol 2023-24. Bydd diweddariadau pellach yn cael eu darparu yn y diweddariad nesaf o'r cynllun gweithredu.</p>
--	--	--	--	--	--	--	---

							<p>Mae RhCT yn cynnig cynllun grant y Blynyddoedd Cynnar a Chyfalaf i bob darparwr gofal plant er mwyn gwella eu darpariaethau Cyllid LIC. Rhaid gwneud cais am y grant drwy broses ymgeisio am grant gadarn.</p> <p>Yn 2022-23, cafodd 59 o geisiadau gwerth cyfanswm o £441,894.68 o gymorth grant ar gyfer gwella'r ddarpariaeth gofal plant bresennol eu cymeradwyo. Mae rownd arall ar agor ar hyn o bryd ar gyfer 2023-24 a disgwylir i geisiadau ddod i ben ddiwedd mis Mehefin 2023.</p>
5.2	Annog pob lleoliad i gofrestru gyda GGD a chadw'u	Cynnwys nodiadau atgoffa i ddiweddarau manylion gyda'r	Carfan Datblygu Gofal Plant	Dydy lleoliadau ddim yn diweddarau eu manylion a'u	Pob lleoliad wedi'i gofrestru ac yn gyfredol â'r Gwasanaeth	Adolygu bob 6 mis mewn partneriaeth â Gwasanaeth	<p>Mae hyrwyddo parhaus yn parhau trwy ein grŵp Facebook caeedig,</p>

	cyfrifon yn gyfredol	<p>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ym mhob achlysur ymgysylltu/lleenyd diaeth gyda'r sector</p> <p>Hyrwyddo manteision cofrestru gyda GGD i ddarparwyr newydd</p> <p>Ei gwneud yn amod o gyllid/cymorth bod yn rhaid cadw cyfrifon GGD yn gyfredol</p>	<p>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p> <p>Partneriaeth Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p>	<p>cyfrifon yn mynd yn segur</p> <p>Dydy lleoliadau ddim yn cofrestru gyda GGD</p>	<p>Gwybodaeth i Deuluoedd</p> <p>Cyfleuster chwilio gofal plant yn y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn gywir ac yn gyfredol</p>	<p>Gwybodaeth i Deuluoedd</p>	<p>e-byst ac achlysuron ymgysylltu â gofal plant i sefydlu a chynnal cyfrifon Dewis a newidiadau e-bost gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae manteision defnyddio gwefan Dewis yn cael eu hyrwyddo'n rheolaidd ar gyfer hysbysebu am ddim.</p> <p>Mae telerau ac amodau grant yn nodi bod yn rhaid i bob darparwr gofrestru gyda GGD a Dewis i gael mynediad at grantiau neu fod yn rhaid iddyn nhw wneud hynny o fewn 3 mis.</p>
<b>5.3</b>	Gwella ymgysylltiad â nanis sydd eisoes ar y	Cysylltu â phob nani yn RhCT sydd ar y	Carfan Datblygu Gofal Plant	Efallai na fydd nanis yn fodlon ymgysylltu â'r garfan	Nanis yn ymgysylltu ac yn cael eu cefnogi gan y garfan	Cyswllt cychwynnol erbyn mis Hydref 2022	Mae'r garfan Gofal Plant wedi cysylltu â 4 nani sy'n gweithredu yn

	cynllun Darparwr Gofal Plant yn y Cartref	<p>gofrestr ar hyn o bryd</p> <p>Cynnig cyfleoedd hyfforddi wedi'u hariannu a lefelau cymorth i nanis ar y gofrestr</p>	<p>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p> <p>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p>		<p>Nanis ar y gofrestr yn manteisio ar gyfleoedd hyfforddi wedi'u hariannu ac yn gwella eu DPP</p>	<p>Cymorth yn mynd rhagddo</p>	<p>RhCT. Mae dau ohonyn nhw wedi rhoi gwybod nad ydyn nhw bellach yn gweithio fel nanis.</p> <p>Mae'r ddwy nani arall wedi cael cynnig cymorth a mynediad i'n hyfforddiant a'n hachlysuron a ariennir ond dydyn nhw heb fanteisio ar y cynnig yma eto.</p> <p>Rydyn ni'n cynnal cysylltiad rheolaidd.</p>
5.4	Hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa, gan amlygu'n glir y pecyn cymorth sydd ar gael i ddarpar warchodwyr plant	<p>Cynllunio amserlen o achlysuron ymgysylltu/ sesiynau gwybodaeth i hyrwyddo gwarchod plant a'r pecyn cymorth sydd ar gael</p> <p>Ymgyrch hyrwyddo trwy gyfryngau</p>	<p>Carfan Datblygu Gofal Plant</p> <p>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p> <p>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p>	<p>Pryderon darpar warchodwyr plant newydd ynghylch cynaliadwyedd eu busnes</p> <p>Mae'r amserlenni ar gyfer cwblhau proses cyn-gofrestru a chais gydag AGC yn hir. Efallai y bydd hyn yn atal rhai</p>	<p>Gwarchodwyr plant newydd yn cael eu denu ac yn manteisio ar y cynnig o gymorth</p> <p>PACEY yn dangos y ffordd i ddarpar ddysgwyr sy'n byw yn RhCT at y Garfan Gofal Plant am wybodaeth a chymorth</p>	<p>Yn parhau</p> <p>Anelu i unigolion gwblhau cofrestriad gydag AGC o fewn 8 mis i'r sesiwn gwybodaeth gychwynnol</p> <p>Anelu at 80% o'r rhai a ariennir i</p>	<p>Mae'r Garfan Gofal Plant yn parhau i hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa yn barhaus.</p> <p>Mae'r garfan yn gwneud hynny drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Hyrwyddo poster / taflenni gwarchod plant fel gofawyr ar gyfryngau</li> </ul>

		<p>cymdeithasol a gwefan y Cyngor</p> <p>Gweithio mewn partneriaeth â PACEY Cymru i hyrwyddo gwarchod plant a'r manteision/ cymorth sydd ar gael</p> <p>Cadw cysylltiad rheolaidd ag unigolion sy'n cael eu hariannu drwy'r pecyn cymorth</p> <p>Canfod y rhesymau dros dynnu'n ôl o'r pecyn cymorth</p>		<p>rhag symud ymlaen</p> <p>Diffyg diddordeb o ran dod yn warchodwr plant</p> <p>Unigolion a ariannwyd yn methu â chwblhau cofrestriad gydag AGC</p>	<p>Rhagor o ymholiadau yn dod i law gan ddarpar warchodwyr plant newydd</p>	<p>gofrestru gydag AGC yn llwyddiannus</p>	<p>cymdeithasol a thrwy e-byst</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynychu grwpiau Rhieni a Phlant Bach yn wythnosol i hyrwyddo Gwarchod Plant fel gyrfa i rieni a gwarcheidwaid</li> <li>• Mynychu sesiynau gwybodaeth Gwarchod Plant mewn ysgolion ar draws RhCT i siarad â rhieni a gwarcheidwaid</li> <li>• Stondinau hyrwyddo a thafenni'n cael eu gadael mewn lleoliadau cymunedol bob wythnos fel</li> </ul>
--	--	--	--	--	---	--	--



							<p>llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ar draws RhCT</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Dyrchafiad i leoliadau i'w hyrwyddo i rieni</li><li>• Gwaith wedi'i dargedu mewn meysydd i recriwtio lle mae galw mawr am warchodwyr plant</li><li>• Mynychu ffeiriau gyrfaoedd, picnic Tedi Bêrs ac achlysuron lleol eraill gyda phresenoldeb cyhoeddus uchel i hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa</li></ul>
--	--	--	--	--	--	--	--

5.5	Hyrwyddo manteision cael mynediad at ofal plant wedi'i rheoleiddio i les a datblygiad plentyn	<p>Hyrwyddo'r llyfryn 'Dewis Gofal Plant' a sicrhau ei fod ar gael yn electronig ac ar bapur</p> <p>Datblygu ymgyrch hyrwyddo trwy gyfryngau cymdeithasol, gwefan, taflenni</p>	<p>Carfan Datblygu Gofal Plant</p> <p>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p> <p>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p>	<p>Rhieni/gwarcheid waid ddim yn effro i'r gwahaniaethau rhwng gofal plant cofrestredig a heb ei gofrestru</p> <p>Efallai bod lleoliadau sydd heb eu cofrestru'n fwy deniadol i rieni/gwarcheidwaid gan fod y ffioedd yn is</p> <p>Efallai bod lleoliadau cofrestredig yn llawn ac yn methu â derbyn plant newydd</p> <p>Efallai nad oes lleoliadau sydd wedi'u cofrestru ag AGC ar gael mewn ardaloedd lle mae galw</p>	<p>Mynediad i ofal plant cofrestredig ar gael i bob plentyn</p> <p>Gwybodaeth gan rieni i lywio eu dewisiadau gofal plant yn well</p> <p>Rhieni'n deall manteision defnyddio gofal plant wedi'i reoleiddio</p>	<p>Hyrwyddo'r llyfryn yn mynd rhagddo</p> <p>Ymgyrch hyrwyddo erbyn mis Mawrth 2023</p>	<p>Mae'r garfan gofal plant yn parhau i hyrwyddo'r "llyfrynnau dewis gofal plant" a chysylltiadau â rhieni trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ac achlysuron a fynychwyd gyda rhieni</p> <p>Mae hyn hefyd yn cael ei rannu trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol</p> <p>Mae'r gwaith o hyrwyddo manteision lleoliadau cofrestredig AGC i rieni/gwarcheidwaid yn parhau</p>
5.6	Hyrwyddo'r cynllun Darparwr Gofal Plant yn y	Datblygu ymgyrch hyrwyddo trwy	Carfan Datblygu Gofal Plant	Rhieni/gwarcheid waid ddim yn	Gwybodaeth gan rieni i lywio eu	Ymgyrch hyrwyddo	Wedi'i wthio'n ôl i fis Medi 2023, oherwydd bod

	<p>Cartref i rieni; hyrwyddo manteision cofrestru iddyn nhw, ac i nanis presennol sydd ddim ar y cynllun</p>	<p>gyfryngau cymdeithasol, gwefan, taflenni</p> <p>Anelu at ganfod nanis yn yr ALI sydd ddim ar y gofrestr wirfoddol</p> <p>Ymgysylltu â nhw a'r rhieni maen nhw'n gweithio iddyn nhw i hyrwyddo manteision cofrestru</p> <p>Nodi hyfforddiant/cymorth i'r rhai sydd ddim yn bodloni'r meini prawf</p>	<p>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p> <p>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p>	<p>effro i'r gofrestr a'r manteision/diogelwch y mae'n eu rhoi</p> <p>Nanis presennol ddim yn effro i'r gofrestr / ddim yn bodloni'r gofynion</p>	<p>dewisiadau gofal plant yn well</p> <p>Modd i nanis fanteisio ar gymorth i fodloni meini prawf ar gyfer cofrestru</p> <p>Pob nani yn RhCT wedi cofrestru ac yn ymgysylltu â'r garfan datblygu gofal plant</p>	<p>erbyn Mehefin 2023</p> <p>Ymgysylltu a chymorth unigol yn mynd rhagddo wedi hynny</p>	<p>Camau Gweithredu Cam-drin Plant yn Rhywiol eraill yn cael blaenoriaeth</p> <p>Bydd y cam gweithredu yma'n cael ei archwilio ym mis Medi 2023</p>
5.7	<p>Cefnogi'r sector i baratoi ar gyfer cyflwyno cynllun Dechrau'n Deg i bob plentyn dwy flwydd oed, a'u cefnogi i ymgysylltu ag ef</p>	<p>Clustnodi a chomisiynu darparwyr gofal plant addas i gynneg darpariaeth Dechrau'n Deg</p> <p>Darparwyr</p>	<p>Carfan Datblygu Gofal Plant</p> <p>Dechrau'n Deg</p> <p>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu</p>	<p>Diffyg darpariaeth gofal plant addas ar gael i fodloni anghenion rhaglen Dechrau'n Deg mewn ardaloedd dynodedig</p>	<p>Nifer digonol o leoliadau gofal plant ar gael i fodloni'r cynnydd yn nifer yr ardaloedd Dechrau'n Deg</p> <p>Darpariaeth</p>	<p>Ehangu cychwynnol erbyn Medi 2022</p> <p>Cymorth ym mynd rhagddo wrth i'r rhaglen</p>	<p>Mae'r Garfan Gofal Plant yn parhau i weithio gyda Charfan Dechrau'n Deg i nodi bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg.</p>

	<p>Dechrau'n Deg yn cael eu cefnogi i fodloni'r lefel ansawdd ddymunol</p> <p>Darparwyr Dechrau'n Deg yn cael eu cefnogi i addasu lleoliadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â meini prawf Dechrau'n Deg</p> <p>Cynnig cymorth wedi'i deilwra i leoliadau i ehangu gwasanaethau/ lleoedd</p>	Chwarae	<p>Y broses gomisiynu yn rhwystro darparwyr posibl rhag tendro am gcontractau</p>	Dechrau'n Deg o ansawdd i gefnogi datblygiad plant cymwys	gael ei hymestyn	<p>Rydyn ni'n parhau i hyrwyddo dod yn ddarparwr cofrestredig Dechrau'n Deg i bob lleoliad gofal plant a gwarchodwr plant.</p> <p>Mae carfan Dechrau'n Deg yn cynnig cymhellion ariannol i annog darparwyr i gael eu cymeradwyo gan Dechrau'n Deg.</p> <p>Mae gweithdai a sesiynau gwybodaeth wedi cael eu hyrwyddo i leoliadau i annog cofrestru Dechrau'n Deg.</p> <p>Cynhelir achlysuron ymgysylltu rheolaidd ddwywaith y flwyddyn fel dull hybrid ar gyfer y sector gofal plant, rydyn ni'n gwahodd siaradwyr gwadd sy'n berthnasol i'r</p>
--	---	---------	---	---	------------------	---

							<p>sector i rannu diweddariadau a gwybodaeth a allai fod o fudd iddyn nhw. Bydd y rhain yn parhau i weithredu ddwywaith y flwyddyn ac yn cynnwys dyrchafiad i fod yn ddarparwyr Dechrau'n Deg.</p> <p>Mae'r Garfan Gofal Plant hefyd yn anfon cylchlythyrau tymhorol i'r sector gofal plant drwy'r post i roi'r newyddion diweddaraf am yr hyn y mae'r garfan yn ei gynnig yn arbennig i'r rhai nad ydyn nhw efallai'n llythrennog yn ddigidol. Mae hyn yn cynnwys diweddariadau sy'n berthnasol i'r ehangiad dwyflwydd oed.</p>
--	--	--	--	--	--	--	--

5.8	Cefnogi lleoliadau i farchnata eu gwasanaethau'n effeithiol, yn enwedig rhinweddau unigryw, fel ieithoedd ychwanegol, neu wasanaethau hyblyg, ad hoc neu annodweddiadol.	Annog pob lleoliad i gofrestru gyda GGD a chadw'u manylion yn gyfredol  Datblygu ymgyrch i dynnu sylw at fanteision marchnata eu gwasanaethau'n effeithiol  Comisiynu hyfforddiant marchnata, cyfryngau cymdeithasol a gwefannau ar gyfer y sector	Carfan Datblygu Gofal Plant  Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd  Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae	Lleoliadau ddim yn cofrestru gyda GGD nac yn cadw'u manylion yn gyfredol  Lleoliadau ddim yn ymgysylltu â hyfforddiant na chynigion o gymorth	Lleoliadau'n effro i'w rhinweddau unigryw ac yn eu marchnata'n effeithiol  Lleoliadau'n diweddarau eu proffiliau'n rheolaidd trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i wneud y gorau o'r hysbysebu am ddim y mae hyn yn ei gynnig  Lleoliadau'n hyderus i ddefnyddio amrywiaeth o offer marchnata i hyrwyddo eu busnesau	Ymgyrch gychwynnol erbyn mis Mawrth 2023  Adolygu bob chwe mis	Mae'r cam gweithredu yma wedi'i wthio'n ôl i fis Medi 2023, oherwydd bod Camau Gweithredu Cam-drin Plant yn Rhywiol eraill yn cael blaenoriaeth.  Bydd rhagor o waith yn mynd rhagddo i siarad â'n carfanau marchnata mewnol am gyngor a chymorth i helpu lleoliadau i farchnata eu gwasanaethau'n effeithiol gan ddefnyddio eu rhinweddau unigryw.
-----	--	--	---	---	---	--	---

## 6 – Ansawdd a llywodraethu

6.1	Ymgysylltu â darparwyr gofal y tu allan i oriau'r ysgol a gofal sesiynol sydd heb eu cofrestru;	Mapio manwl o leoliadau heb eu cofrestru yn RhCT	Carfan Datblygu Gofal Plant  Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal	Amharodrwydd lleoliadau sydd heb eu cofrestru i fynd drwy'r broses gofrestru gydag AGC	10% y flwyddyn o'r lleoliadau sy'n weddill sydd heb eu cofrestru wedi dechrau, neu wedi cyflawni,	Mawrth 2023	Gweler diweddariad gweithredu 1.7
-----	---	--	---	--	---	-------------	-----------------------------------

	eu hannog a'u cefnogi i gofrestru gydag AGC	<p>Cynnig cymorth ac arweiniad 1:1 i leoliadau sydd heb eu cofrestru</p> <p>Chwilio am weithdai i roi cymorth o ran cofrestru, a'u comisiynu</p> <p>Cynnig cymorth ariannol a hyfforddiant wedi'i ariannu i gydymffurfio â gofynion cofrestru</p>	Plant a Datblygu Chwarae	<p>Diffyg staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i fodloni gofynion o ran cofrestru</p> <p>Lleoliadau ddim yn addas i gofrestru</p>	<p>cofrestriad gydag AGC</p> <p>Cynnydd yn nifer y lleoedd gofal plant cofrestredig</p>		
6.2	Gwella ansawdd y lleoliadau gofal plant y tu hwnt i'r Safonau Cenedlaethol Gofynnol	<p>Hyrwyddo cynlluniau Sicrhau Ansawdd addas ac annog lleoliadau i gymryd rhan lle bo modd</p> <p>Cynnig cymorth parhaus i leoliadau Dechrau'n Deg a darparwyr addysg cofrestredig i roi</p>	<p>Carfan Datblygu Gofal Plant</p> <p>Partneriaeth Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p> <p>Athrawon Ymgynghorol y Blynnyddoedd Cynnar</p> <p>Swyddogion Sicrhau</p>	<p>Dim cyllid ar gael i gefnogi lleoliadau i gymryd rhan mewn cynlluniau sicrhau ansawdd allanol</p> <p>Gallu staff i gefnogi lleoliadau Dechrau'n Deg a darparwyr addysg cofrestredig</p>	<p>Lleoliadau'n cyflawni cynlluniau Sicrhau Ansawdd cydnabyddedig ac yn codi safonau yn eu hymarfer</p> <p>Lleoliadau Dechrau'n Deg a darparwyr addysg cofrestredig yn gwella ansawdd</p>	Yn parhau	<p>Dydy'r garfan Gofal Plant RhCT ddim yn cynnig cynllun sicrhau ansawdd mewanol. Oherwydd nifer y lleoliadau gofal plant ar draws RhCT ac fel carfan fach, fyddai dim modd i ni gefnogi cynllun.</p> <p>Mae'r garfan Gofal Plant yn hyrwyddo cynlluniau sicrhau ansawdd</p>

		<p>cynlluniau Sicrwydd Ansawdd perthnasol a chamau gweithredu a argymhellir ar waith</p> <p>Cynnig cyfleoedd hyfforddi Datblygu Proffesiynol Parhaus a ariennir</p> <p>Hyrwyddo hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer y cwricwlwm newydd ar gyfer lleoliadau sydd ddim yn cael eu cynnal</p>	<p>Ansawdd Dechrau'n Deg</p>	<p>Ymrwymiad lleoliadau i wella ansawdd</p>	<p>yn eu hymarfer</p>		<p>sefydliadau ymbarél i ddarparwyr ac yn annog datblygiad proffesiynol parhaus ymarferwyr gofal plant trwy gynnig cyfleoedd hyfforddi wedi'u hariannu. Mae Dechrau'n Deg yn defnyddio offeryn Sicrwydd Ansawdd cydnabyddedig ac wrth i ragor o leoliadau ddod yn ddarparwyr Dechrau'n Deg bydden ni'n disgwyl i ragor o leoliadau fodloni'r safonau uwch sy'n ofynnol gan Dechrau'n Deg.</p>
6.3	<p>Hyrwyddo manteision ariannol i rieni o ddefnyddio gwasanaethau gofal plant sydd wedi'u cofrestru gydag AGC</p>	<p>Ymgyrch hyrwyddo i dynnu sylw at fanteision darpariaeth gofrestredig a goblygiadau defnyddio</p>	<p>Carfan Datblygu Gofal Plant</p> <p>Partneriaeth Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p>	<p>Rhieni'n dewis darpariaethau sydd heb eu cofrestru sy'n llai drud yn hytrach na darpariaethau cofrestredig AGC</p>	<p>Rhieni'n deall manteision a mesurau diogelu o ddefnyddio darpariaeth gofrestredig AGC</p>	<p>Yn parhau</p>	<p>Mae'r garfan Gofal Plant yn hyrwyddo'n rheolaidd fanteision defnyddio darpariaeth gofal plant sydd wedi'i chofrestru gan AGC i gael mynediad at</p>



		<p>darpariaeth sydd heb ei chofrestru</p> <p>Cysylltu â sefydliadau ymbarél i hyrwyddo manteision darpariaeth gofrestrdig AGC</p> <p>Cysylltu â GGD i hyrwyddo manteision defnyddio gofal plant cofrestredig AGC ar eu gwefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol</p>	Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd	Diffyg dealltwriaeth gan rieni o'r gwahaniaeth mewn darpariaethau cofrestredig a rhai sydd heb eu cofrestru	Rhagor o rieni yn dewis darpariaethau cofrestredig AGC		<p>gynlluniau fel y Cynnig Gofal Plant, gofal plant di-dreth a hawl i Dechrau'n Deg trwy farchnata rheolaidd trwy gyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Mae'r garfan gofal plant yn parhau i hyrwyddo'r "llyfrynnau dewis gofal plant" a chysylltiadau â rhieni trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ac achlysuron a fynychwyd gyda rhieni.</p> <p>Mae hyn hefyd yn cael ei rannu trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol.</p>
--	--	--	-----------------------------------	---	--	--	---

**7 – Oriau annodweddiadol / galw ad hoc**

7.1	Archwilio'r defnydd o leoedd ad hoc ac annog	Ymgynghori â rhieni/gwarcheid waid i	Carfan Datblygu Gofal Plant	Mae'n bosibl y bydd defnydd annibynadwy yn	Modd i leoliadau gynnig gofal mwy hyblyg i'r	Ymgynghoria d cychwynnol	Mae'r cam gweithredu yma wedi'i wthio'n ôl i
-----	--	--------------------------------------	-----------------------------	--	--	--------------------------	--

	<p>Ileoliadau i gynnig contractau mwy hyblyg</p>	<p>benderfynu ar y galw am ofal plant ad hoc/hyblyg</p> <p>Cydgysylltu â lleoliadau i ddeall y rhwystrau/ materion sy'n ymwneud â chynnig contractau hyblyg i rieni</p>	<p>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd</p> <p>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p>	<p>achosi problemau o ran cynaliadwyedd i ddarparwyr</p> <p>Yn sgil oriau annibynadwy, efallai y bydd problemau o dal gafael ar staff</p> <p>Diffyg ymatebion gan rieni/ gwarcheidwaid</p> <p>Mae rhiant/ gwarcheidwad yn datgan bod angen gwasanaeth adeg cwblhau'r arolwg. Pan gaiff y gwasanaeth ei ddarparu, dydy'r rhieni/ gwarcheidwaid ddim yn ei gwblhau.</p> <p>Lleoedd ddim ar gael ar adegau o angen</p>	<p>rhai sy'n gweithio oriau annodweddiadol</p> <p>Digon o ofal plant ar gael i ddarparu ar gyfer defnydd ad hoc neu hyblyg</p>	<p>Gwanwyn 2023</p> <p>Ymgysylltu â lleoliadau yn mynd rhagddo wedi hynny</p>	<p>Hydref 2023 oherwydd bod camau eraill yn cael blaenoriaeth.</p> <p>Diweddariadau pellach i'w darparu yn y diweddariad nesaf o'r cynllun gweithredu.</p>
--	--	---	---	---	--	---	--

7.2	Cynnal ymgynghoriad pellach i sefydlu'r galw am ofal plant yn ystod oriau annodweddiadol, yn arbennig cyn 8am neu ar ôl 6pm yn ystod yr wythnos, penwythnosau a gofal dros nos	Ymgynghori â rhieni/ gwarcheidwaid i bennu'r galw  Cydgysylltu â lleoliadau i ddeall y rhwystrau/ materion sy'n gysylltiedig â chynnig oriau agor annodweddiadol  Gweithio gyda lleoliadau unigol mewn ardaloedd lle mae arolwg rhieni wedi nodi galw am oriau annodweddiadol	Carfan Datblygu Gofal Plant  Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae  Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd	Ymatebion annigonol gan rhieni/ gwarcheidwaid i sefydlu'r galw  Mae angen gwasanaeth yn ôl rhieni/ gwarcheidwaid ar adeg cwblhau'r arolwg, ond dydyn nhw ddim yn manteisio arno os yw e ar gael  Lleoliadau yn methu â staffio oriau annodweddiadol	Modd i rieni/ gwarcheidwaid gael mynediad at ofal plant digonol yn ystod oriau annodweddiadol  Darparwyr gofal plant yn agored i drafodaethau ynghylch darparu gofal yn ystod oriau annodweddiadol	Ymgynghoriad cychwynnol Gwanwyn 2023  Ymgysylltu â lleoliadau yn mynd rhagddo wedi hynny	Mae'r cam gweithredu yma wedi'i wthio'n ôl i Hydref 2023 oherwydd bod camau eraill yn cael blaenoriaeth.  Diweddariadau pellach i'w darparu yn y diweddariad nesaf o'r cynllun gweithredu.
-----	--	---	---	---	--	--	--

**8 – Datblygu'r Gweithlu**

8.1	Sicrhau bod modd i ymarferwyr fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi statudol a DPP perthnasol	Hyrwyddo rhaglenni hyfforddi presennol i'r sector  Gweithio mewn partneriaeth â charfanau eraill i	Carfan Datblygu Gofal Plant  Dechrau'n Deg  Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar	Dysgwyr yn methu â mynychu oherwydd amser y cwrs  Dysgwyr ddim yn mynychu hyfforddiant	Hyfforddiant cymorthdaledig perthnasol ar gael i bob ymarferydd  Yr holl ymarferwyr yn cael y wybodaeth	Yn parhau	Mae'r Garfan Gofal Plant yn cynnig prosectws hyfforddiant blynyddol i bob darparwr gofal plant yn RhCT. Mae'r cyrsiau'n cael eu hariannu'n llawn ac
-----	--	--	---	--	---	-----------	---

		<p>osgoi dyblygu hyfforddiant</p> <p>Cyfeirio lleoliadau at hyfforddiant sydd wedi'i gyfyngu i leoliadau Dechrau'n Deg/darparwyr addysg cofrestredig</p> <p>Comisiynu hyfforddiant allanol i gynnig cyrsiau DPP a nodwyd drwy ymgynghoriad â'r sector</p>	<p>Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar</p> <p>Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Datblygu Chwarae</p>	<p>gorfodol dynodedig</p> <p>Hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn anaddas neu ddim yn cael ei ddefnyddio gan ddysgwyr</p> <p>Dim digon o arian i gynnig cyrsiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus gofynnol</p>	<p>ddiweddaraf am hyfforddiant statudol</p> <p>Hyfforddiant statudol ar gael i'r sector drwy raglen dreigl i sicrhau bod digon o leoedd ar gael</p>	<p>yn cael eu cynnig ar sail y cyntaf i'r felin.</p> <p>Mae cyrsiau gorfodol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymorth Cyntaf Paediatreg Lefel 3</li> <li>• Diogelu Lefel 3</li> <li>• Hylendid Bwyd</li> <li>• Codi a chario</li> <li>• Rheoli Ymddygiad Heriol</li> </ul> <p>Mae cyrsiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus pellach yn cael eu hysbysebu ar sail ad hoc pan fo galw amdany'n nhw neu pan fo cyllidebau'n caniatáu.</p> <p>Mae Dechrau'n Deg ac REP yn cynnig ystod bellach o DPP neu hyfforddiant penodol i</p>
--	--	---	--	---	---	---

							<p>ymarferwyr gofal plant sy'n ddarparwyr Dechrau'n Deg neu addysg.</p> <p>Ni waeth bobl fanteisio ar gyrsiau hyfforddi yn 2022-2023 gymaint â'r disgwyl. Ni fynychwyd 30% o'r lleoedd neu chawson nhw ddim eu canslo gyda 48 awr o rybudd ar gyfer yr holl hyfforddiant gorfodol. Os ydyn ni'n cyfrif am hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus hefyd byddai gan hyn gyfradd absenoldeb neu ganslo o 42% yn gyffredinol. Gyda hyn mewn golwg bydd y Garfan Gofal Plant yn parhau i fonitro cyrsiau hyfforddi ac os na fydd</p>
--	--	--	--	--	--	--	---

							presenoldeb yn gwella, efallai y byddwn yn cael ein gorfodi i gyflwyno cynllun blaendal, neu daliadau am hyfforddiant a gollwyd.
8.2	Hyrwyddo hyfforddiant ADY a chynhwysiant; gwella mynediad at hyfforddiant, yn enwedig i warchodwyr plant	Parhau i hyrwyddo rhaglen dreigl ADY i leoliadau  Gweithio gyda darparwyr hyfforddiant i gynneg hyfforddiant ar wahanol adegau i leihau rhwystrau i rai darparwyr, e.e. ar benwythnosau neu ar ôl 6pm	Carfan Datblygu Gofal Plant  Dechrau'n Deg / Darparwyr Addysg Cofrestredig  Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar  Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar	Amseroedd hyfforddi amgen ddim yn bosibl, gan arwain at wahardd rhai darparwyr  Dim ond hyn a hyn o hyfforddiant ADY parhaus ar gael, neu'n gyfyngedig o ran y nifer o leoedd sydd ar gael	Pob ymarferydd yn cael mynediad i hyfforddiant ADY/ Cynhwysiad  Digon o hyfforddiant ADY ar gael i fodloni galw'r sector gofal plant	Yn parhau	Mae'r Garfan Gofal Plant yn anfon gwybodaeth yn rheolaidd at ddarparwyr Gofal Plant yn RhCT drwy e-bost neu grŵp caeedig ar Facebook ynghylch yr amserlen hyfforddi ADY.  Mae gan RCT Swyddog Arweiniol Blynyddoedd Cynnar ac ADY sy'n cynnig cyngor a modiwlau hyfforddi i leoliadau gofal plant ar sail dreigl drwy gydol y flwyddyn academaidd.

							Cynigir cyrsiau dros amrywiaeth o amseroedd a dyddiadau i gefnogi'r darparwyr gofal plant hynny sy'n gweithio oriau ad hoc.
8.3	Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a cholegau i gynnal llwybrau pontio i'r sector gofal plant ar gyfer disgyblion sy'n gadael yr ysgol, yn enwedig disgyblion cyfrwng Cymraeg	<p>Cysylltu ag ymgynghorwyr gyrfaedd mewn ysgolion/ colegau, cytuno ar gamau gweithredu lleol</p> <p>Cryfhau cysylltiadau â charfan gweithlu rhanbarthol RhCT, Gyrfa Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i hyrwyddo gofal plant fel gyrfa a hyrwyddo ymgyrchoedd recriwtio</p> <p>Cefnogi darparwyr gofal</p>	<p>Carfan Datblygu Gofal Plant</p> <p>Carfan Gweithlu Rhanbarthol</p> <p>Gyrfa Cymru</p> <p>Gofal Cymdeithasol Cymru</p> <p>Ymgynghorwyr gyrfaedd ysgolion/colegau</p>	<p>Ysgolion/ Colegau ddim yn fodlon ymgysylltu</p> <p>Diffyg niferoedd o ddarparwyr gofal plant presennol yn manteisio ar y cyfle i ddod yn llysgenhadon</p> <p>Diffyg niferoedd o fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg sy'n dymuno manteisio ar ofal plant fel opsiwn gyrfa</p> <p>Dim cynnydd yn nifer y rhai sy'n gadael yr</p>	<p>Gwaith partneriaeth llwyddiannus gydag ysgolion/colegau a phartneriaid</p> <p>Carfan gref o lysgenhadon gofal plant i hyrwyddo gofal plant fel gyrfa i fyfyrwyr</p> <p>Cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n symud ymlaen i swyddi yn y sector gofal plant</p>	<p>Ymgysylltu â phartneriaid erbyn mis Mawrth 2023</p> <p>Coladu data gwaelodlin erbyn mis Medi 2023</p> <p>Nodi camau gweithredu erbyn Rhagfyr 2023</p>	<p>Bydd y Garfan Gofal Plant yn gweithio gyda'r Swyddog Ymgysylltu Gweithlu Rhanbarthol o fis Medi 2023 i ymweld ag ysgolion a cholegau i hyrwyddo Gwarchod Plant a gofal plant fel gyrfa gyda ffocws penodol ar fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfodydd cychwynnol rhwng y swyddog ymgysylltu a'r Garfan Gofal Plant.</p> <p>Mae cwrs dewisiadau gofal plant ar gyfer y</p>

		<p>plant presennol i ddod yn llysgenhadon yn eu sector i hyrwyddo i ysgolion a cholegau</p> <p>Coladu data gwaelodlin ar gyfer llwybrau ymadael myfyrwyr gofal plant o ysgolion/olegau i fonitro cynnydd</p>		<p>ysgol/oleg sy'n ymuno â'r gweithlu gofal plant</p>			<p>cyhoedd hefyd yn y camau cynllunio ar gyfer canol mis Medi 2023 i hyrwyddo gofal plant fel gyrfa.</p>
--	--	--	--	---	--	--	--